

1990 No. 1147

**TOWN AND COUNTRY PLANNING, ENGLAND AND
WALES**

**The Town and Country Planning (Listed Buildings in
Wales and Buildings in Conservation Areas in Wales)
(Welsh Forms) Regulations 1990**

<i>Made - - - - -</i>	<i>23rd May 1990</i>
<i>Laid before Parliament</i>	<i>6th June 1990</i>
<i>Coming into force</i>	<i>27th June 1990</i>

The Secretary of State for Wales, in exercise of the powers conferred on him by sections 54(7), 56(6), 56B(2), 271, 277A(1) and (8), 287(1) and (2), 290(a) of and paragraphs 1 and 2 of Schedule 11 and Part VI of Schedule 21 to, the Town and Country Planning Act 1971(b), as extended by section 2(2) of the Welsh Language Act 1967(c), and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following Regulations:

Citation, commencement, application and interpretation

1.—(1) These Regulations may be cited as the Town and Country Planning (Listed Buildings in Wales and Buildings in Conservation Areas in Wales) (Welsh Forms) Regulations 1990 and shall come into force on 27th June 1990.

(2) These Regulations apply only in respect of listed buildings(d) in Wales and buildings in conservation areas in Wales.

(3) In these Regulations “the principal Regulations” means the Town and Country Planning (Listed Buildings and Buildings in Conservation Areas) Regulations 1987(e).

Notification to applicant

2.—(1) The form set out in Part I of Schedule 1 to these Regulations is hereby prescribed as the version in Welsh which may be used instead of the form in Part I of Schedule 1 to the principal Regulations (notification to be sent to applicant on receipt of application for listed building consent, for conservation area consent or to vary or discharge conditions attached to listed building consent or conservation area consent).

(2) The form set out in Part II of Schedule 1 to these Regulations is hereby prescribed as the version in Welsh which may be used instead of the form in Part II of Schedule 1 to the principal Regulations (notification to be sent to applicant on refusal of listed building consent or conservation area consent or grant of consent subject to conditions).

(a) See the definition of “prescribed”.

(b) 1971 c.78; section 277A was inserted by the Town and Country Amenities Act 1974 (c.32), section 1; and sections 56B, 277A(8) and paragraph 1(1A) of Schedule 11 to the 1971 Act were inserted by the Housing and Planning Act 1986 (c.63), Schedule 9.

(c) 1967 c.66.

(d) “Building” is defined in section 290(1) of the Town and Country Planning Act 1971 as including any part of a building.

(e) S.I. 1987/349.

(3) The form set out in Part III of Schedule 1 to these Regulations is hereby prescribed as the version in Welsh which may be used instead of the form in Part III of Schedule 1 to the principal Regulations (notification to be sent to applicant on refusal to vary or discharge conditions attached to listed building consent or conservation area consent, or on the addition of new conditions consequential upon variation or discharge).

Certificates and notices

3.—(1) The forms set out in Part I of Schedule 2 to these Regulations are hereby prescribed as the versions in Welsh which may be used instead of the forms in Part I of Schedule 2 to the principal Regulations (certificates to accompany applications and appeals).

(2) The forms set out in Part II of Schedule 2 to these Regulations are hereby prescribed as the versions in Welsh which may be used instead of the forms in Part II of Schedule 2 to the principal Regulations (notice of application for listed building consent, conservation area consent or for variation or discharge of conditions, for service on individuals and notice for publication in local newspapers).

(3) The forms set out in Part III of Schedule 2 to these Regulations are hereby prescribed as the versions in Welsh which may be used instead of the forms in Part III of Schedule 2 to the principal Regulations (notice of appeal for service on individuals and notice of appeal for publication in local newspapers).

Notice of listing and of exclusion from listing

4. The forms set out in Schedule 3 to these Regulations are hereby prescribed as the versions in Welsh which may be used instead of the forms in Schedule 4 to the principal Regulations (form of notice that a building has become listed or has ceased to be listed).

SCHEDULE 1

Regulation 2

PART I

HYSBYSIAD I'W ANFON I'R CEISYDD AR ÔL I GAIS DDOD I LAW

Daeth eich cais dyddiedig i law ar (a). *[Ni chwblhawyd archwilio'r ffurflen gais a'r cynlluniau a'r dogfennau sydd gyda hi i ddarganfod a yw eich cais yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

O'i harchwilio ymhellach os ceir bod y cais yn annilys oherwydd methu cydymffurfio â'r gofynion hynny (neu am unrhyw reswm arall) anfonir gohebiaeth bellach atoch cyn gynted â phosibl.]

Erbyn (b) *[os nad ydych wedi cael hysbysiad bod eich cais yn annilys ac] os nad yw'r awdurdod hwn wedi rhoi gwybod i chi am eu penderfyniad (a chithau heb gytuno â hwy mewn ysgriflen y gellir ymestyn y cyfnod y rhoddir eu penderfyniad ynddo) gallwch apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraffau 8 a 9 Atodiad 11 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 trwy hysbysiad a anfonir o fewn chwe mis ar ôl y dyddiad hwnnw (oni chyfeiriwyd y cais eisoes gan yr awdurdod hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru). Rhaid gwneud apelau ar ffurflen y gellir ei chael oddi wrth y Swyddfa Gymreig.

Nodiadau

- (a) Nodwch y dyddiad pryd y daeth y ddogfen/dogfennau perthnasol y cyfeiriwyd ati/atynt yn rheoliad [3(1)], [4(1)]* i law.
- (b) Nodwch y dyddiad 8 wythnos ar ôl y dyddiad y daeth y cais i law (fel y'i rhoddwyd yn (a)).

*Dileer lle nad yw'n briodol.

PART II

HYSBYSIAD I'W ANFON AT Y CEISYDD WRTH WRTHOD CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG NEU GANIATÂD ARDAL GADWRAETH, NEU WRTH ROI CANIATÂD YN DDAROSTYNGEDIG I AMODAU (I'W HATEGU AR HYSBYSIADAU PENDERFYNU)

(1) Os tramgyddir y ceisydd gan benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol i wrthod caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth am y gwaith arfaethedig, neu i roi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau, gall apelio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn unol â pharagraff 8 Atodiad 11 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 o fewn chwe mis ar ôl cael yr hysbysiad hwn. (Rhaid gwneud apelau ar ffurflen y gellir ei chael oddi wrth y Swyddfa Gymreig). Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i ganiatáu cyfnod hwy ar gyfer rhoi hysbysiad apêl ond fel arfer ni fydd yn barod i ymarfer y pŵer hwn oni bai bod amgylchiadau arbennig sy'n esgusodi'r oedi wrth roi hysbysiad apêl.

(2) Os gwrthodir caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth, neu os rhoddir hwy yn ddarostyngedig i amodau, naill ai gan yr awdurdod cynllunio lleol neu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac os yw perchennog y tir yn honni nad oes modd yn awr ddefnyddio'r tir er budd rhesymol yn ei gyflwr presennol ac na ellir peri y gellir ei ddefnyddio er budd rhesymol trwy gyflawni unrhyw weithiau sydd wedi'u caniatáu neu y byddid wedi'u caniatáu, gall gyflwyno i gyngor y dosbarth y lleolir y tir ynddo hysbysiad prynu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor hwnnw brynu ei ddi-ddordeb yn y tir yn unol â darpariaethau adran 190 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971.

(3) O dan rai amgylchiadau gellir gwneud cais yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol am iawndal lle gwrthodir caniatâd neu lle y'i rhoddir yn ddarostyngedig i amodau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar apêl neu pan gyfeirir cais ato. Nodir yr amgylchiadau lle mae iawndal o'r fath yn daladwy yn adran 171 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971.

PART III

HYSBYSIAD I'W ANFON AT Y CEISYDD WRTH WRTHOD AMRYWIO NEU DDILEU AMODAU SYDD YNGHLWM WRTH GANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG NEU GANIATÂD ARDAL GADWRAETH, NEU WRTH YCHWANEGU AMODAU NEWYDD A DDAW YN SGÎL AMRYWIO NEU DDILEU

Os tramgyddir y ceisydd gan benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol—

(a) i wrthod amrywio neu ddileu'r amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth; neu

(b) i ychwanegu amodau newydd a ddaw yn sgîl unrhyw amrywio neu ddileu o'r fath,

gall apelio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn unol â pharagraff 8 Atodiad 11 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 o fewn chwe mis ar ôl cael yr hysbysiad hwn. (Rhaid gwneud apelau ar ffurflen y gellir ei chael oddi wrth y Swyddfa Gymreig). Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i ganiatáu cyfnod hwy ar gyfer rhoi hysbysiad apêl ond fel rheol ni fydd yn barod i ymarfer y pŵer hwn oni bai bod amgylchiadau arbennig sy'n esgusodi'r oedi wrth roi hysbysiad apêl.

SCHEDULE 2

Regulation 3

PART I

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1971

Tystysgrif A*

Tystiaf drwy hyn nad oedd unrhyw berson heblaw [fi fy hun][y ceisydd][yr apelydd]* yn berchennog (a) yr adeilad y mae'r [cais][apêl]* yn ymwneud ag ef ar ddechrau'r cyfnod o 20 diwrnod cyn dyddiad [y cais][yr apêl]* sydd gyda hyn.

neu

Tystysgrif B*

Tystiaf drwy hyn:

[Fy mod i][fod y ceisydd][fod yr apelydd]* wedi rhoi'r rhybudd angenrheidiol i'r holl bersonau heblaw [fi fy hun][y ceisydd][yr apelydd]* a oedd, 20 diwrnod cyn dyddiad [y cais][yr apêl]*, yn berchnogion (a) yr adeilad y mae'r [cais][apêl] yn ymwneud ag ef, sef:-

Enw'r perchennog

Cyfeiriad

Dyddiad cyflwyno'r
hysbysiad

neu

Tystysgrif C*

Tystiaf drwy hyn:

1. [Nad wyf fi][Nad yw'r ceisydd][Nad yw'r apelydd]* yn gallu rhoi tystysgrif yn unol â naill ai is-baragraff (a) neu is-baragraff (b) o reoliad 6(1) y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1987 mewn perthynas â'r [cais][apêl]* dyddiedig.

2. [Fy mod i][fod y ceisydd][fod yr apelydd]* wedi rhoi'r rhybudd angenrheidiol i'r personau canlynol heblaw [fi fy hun][y ceisydd][yr apelydd]* a oedd, 20 diwrnod cyn dyddiad [y cais][yr apêl]*, yn berchnogion (a) yr adeilad y mae'r [cais][apêl] yn ymwneud ag ef, sef:-

Enw'r perchennog

Cyfeiriad

Dyddiad cyflwyno'r
hysbysiad

3. [Fy mod i][fod y ceisydd][fod yr apelydd]* wedi cymryd y camau a restrir isod, sef camau sy'n rhesymol agored [i mi][iddo]* i ddarganfod enwau a chyfeiriadau perchnogion eraill (a) yr adeilad ac na fu modd [i mi][iddo]* wneud hynny: (b).

4. Y cyhoeddwyd hysbysiad am y [cais][apêl]* fel y'i nodir isod yn y (c) ar (d).

Copi o'r hysbysiad fel y'i cyhoeddir

neu

Tystysgrif D*

Tystiaf drwy hyn:

1. [Nad wyf fi][Nad yw'r ceisydd][Nad yw'r apelydd]* yn gallu rhoi tystysgrif yn unol ag is-baragraff (a) o reoliad 6(1) y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1987 mewn perthynas â'r [cais][apêl]* dyddiedig a [fy mod i][ei fod ef]* wedi cymryd y camau a restrir isod, sef camau sy'n rhesymol agored [i mi][iddo]*, i ddarganfod enwau a chyfeiriadau yr holl bersonau heblaw [fi fy hun][ef ei hun]* a oedd, 20 diwrnod cyn dyddiad y [cais][apêl]*, yn berchnogion (a) yr adeilad y mae'r [cais][apêl]* yn ymwneud ag ef ac na fu modd [i mi][iddo ef] wneud hynny: (b).

2. Y cyhoeddwyd hysbysiad am y [cais][apêl]* fel y'i nodir isod yn y (c) ar (d).

Copi o'r hysbysiad fel y'i cyhoeddwyd

Llofnodwyd

[Ar ran]*

Dyddiad

*Dileer lle nad yw'n briodol.

Nodiadau

- (a) Ystyr "perchennog" yw person sydd â diddordeb rhyddfrait neu ddiddordeb prydes ac o leiaf 7 blynedd yn weddill o dymor y diddordeb sydd heb ddod i ben.
- (b) Rhowch ddisgrifiad o'r camau a gymerwyd.

- (c) Nodwch enw papur newydd lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal y lleolir y tir ynddo.
 (d) Nodwch ddyddiad y cyhoeddi (sy'n gorfod bod o leiaf 20 diwrnod cyn y cais neu'r apêl).

PART II
DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1971
HYSBYSIAD I'W GYFLWYNO I UNIGOLION

Cynnig ar gyfer [dymchwel][newid][estyn][amrywio neu ddileu amodau]* (a).

DALIER SYLW bod cais yn cael ei wneud i Gyngor(b) gan (c)
 am [ganiatâd adeilad rhestredig][ganiatâd ardal gadwraeth][amrywio neu ddileu amodau]* (d).

Os ydych am gyflwyno sylwadau ynghylch y cais, dylech eu gwneud yn ysgrifenedig, erbyn
 (e) fan bellaf i'r Cyngor yn (f).

Llofnodwyd

[Ar ran]*

Dyddiad

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1971

HYSBYSIAD I'W GYHOEDDI MEWN PAPURAU NEWYDDION LLEOL LLE NAD YW'R HOLL BERCHNOGION YN HYSBYS, YN UNOL Â RHEOLIAD 6(2) O'R RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (ADEILADAU RHESTREDIG AC ADEILADAU MEWN ARDALOEDD CADWRAETH) 1987

Cynnig ar gyfer [dymchwel][newid][ymestyn][amrywio neu ddileu amodau]*
 (a).

Hysbysir drwy hyn fod cais yn cael ei wneud i Gyngor(b) gan (c)
 am [ganiatâd adeilad rhestredig][ganiatâd ardal gadwraeth][amrywio neu ddileu amodau]*
 (d).

Dylai unrhyw berchennog ar yr adeilad (sef rhydd-ddeiliad neu brydleswr sydd â'r hawl i gael tymor sydd heb ddod i ben o saith mlynedd o leiaf) sydd am gyflwyno sylwadau i'r Cyngor uchod ynghylch y cais eu gwneud yn ysgrifenedig erbyn (e) i'r Cyngor yn (f).

Llofnodwyd

[Ar ran]*

Dyddiad

*Dileer lle nad yw'n briodol.

Nodiadau

- (a) Nodwch enw, cyfeiriad neu leoliad yr adeilad yn ddigon manwl i sicrhau ei adnabod.
- (b) Nodwch enw'r cyngor.
- (c) Nodwch enw'r ceisydd.
- (d) Rhowch ddisgrifiad o'r gweithiau arfaethedig ac enw, cyfeiriad neu leoliad yr adeilad, neu yn achos cais i amrywio neu ddileu amodau, rhowch ddisgrifiad o'r amrywio neu'r ddileu arfaethedig.
- (e) Nodwch ddyddiad o leiaf 20 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynir neu y cyhoeddir yr hysbysiad.
- (f) Nodwch gyfeiriad y cyngor.

PART III
DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1971
HYSBYSIAD I'W GYFLWYNO I UNIGOLION

Cynnig ar gyfer [dymchwel][newid][ymestyn][amrywio neu ddileu amodau]*
 (a).

DALIER SYLW bod apêl yn cael ei wneud i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan
(b) [yn erbyn penderfyniad
Cyngor (c)] [ynghylch methiant Cyngor (c) i roi hysbysiad
penderfynu]* ynghylch cais i (d).

Os ydych am gyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch yr apêl dylech eu cyflwyno
erbyn (e), fan bellaf, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn

Llofnodwyd

[Ar ran]*

Dyddiad

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1971

HYSBYSIAD I'W GYHOEDDI MEWN PAPURAU NEWYDDION LLEOL

Cynnig ar gyfer [dymchwel][newid][ymestyn][amrywio neu ddileu amodau]*
(a).

Hysbysir drwy hyn fod apêl yn cael ei gwneud i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan

(b)

[yn erbyn penderfyniad Cyngor (c)
ynghylch methiant y Cyngor (c)
(d),

] i roi hysbysiad penderfyniad]* ynghylch cais i

Dylai unrhyw berchennog ar yr adeilad (sef rhydd-ddeiliad, neu brydleswr sydd â hawl i gael tymor
sydd heb ddod i ben o saith mlynedd o leiaf) sydd am gyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol
ynghylch yr apêl eu gwneud yn ysgrifenedig, erbyn (e) fan bellaf i Ysgrifennydd
Gwladol Cymru yn

Llofnodwyd

[Ar ran]*

Dyddiad

*Dileër lle nad yw'n briodol.

Nodiadau

- (a) Nodwch enw, cyfeiriad neu leoliad adeilad yn ddigon manwl i sicrhau ei adnabod.
- (b) Nodwch enw'r apelydd.
- (c) Nodwch enw'r cyngor.
- (d) Rhowch ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig ac enw, cyfeiriad neu leoliad yr adeilad neu yn
achos cais i amrywio neu ddileu amodau, rhowch ddisgrifiad o'r amrywio neu'r ddileu
arfaethedig.
- (e) Nodwch ddyddiad o leiaf 20 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynir neu y cyhoeddir yr
hysbysiad.

SCHEDULE 3

Regulation 4

RHYBUDD BOD ADEILAD WEDI'I RESTRU

PWYSIG-

MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1971

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

At:

HYSBYSIR DRWY HYN fod yr adeilad a enwir a leolir yn wedi'i gynnwys mewn rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a luniwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 54 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 ar 19 .

Dyddiad

19

[Clerc y Dref]

[Clerc y Cyngor]

[Prif Weithredwr]

NODYN

Rhestru Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig

Cyfeirir yr hysbysiad uchod atoch fel perchennog neu ddeiliaid yr adeilad a enwyd, a gynhwyswyd yn un o'r rhestru o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig o dan adran 54 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Lluniwyd y rhestru gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel dyletswydd statudol ar ôl ymgynghori â'r personau neu'r cyrff eraill sydd, yn ei dyb, ef yn briodol fel rhai sy'n meddu ar wybodaeth arbennig o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, neu sydd â diddordeb ynddynt.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn gofyn am unrhyw weithredu ar eich rhan oni bai eich bod yn cynnig ar unrhyw adeg ddymchwel yr adeilad neu wneud unrhyw waith (naill ai i'r tu allan neu'r tu mewn) a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad. Os digwydd hynny bydd angen i chi geisio "caniatâd adeilad rhestredig", hynny yw, caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol (Cyngor) am y gwaith yr ydych am ei wneud.

Ond dylech nodi mai trosedd yw cyflawni unrhyw un o'r gweithiau hyn heb gael caniatâd adeilad rhestredig. Gallai collfarn am y trosedd hwnnw arwain at ddirwy neu hyd yn oed garchar. Serch hynny, lle cyflawnwyd gwaith yr oedd angen brys amdano er lles diogelwch neu iechyd neu i gadw'r adeilad heb ganiatâd, amddiffyniad yw profi-

- (a) nad oedd yn ymarferol sicrhau iechyd neu ddiogelwch neu gadw'r adeilad trwy waith trwsio neu waith i roi cymorth neu gysgod tros tro;
- (b) bod y gwaith a gyflawnwyd wedi'i gyfyngu i'r mesurau lleiaf a oedd yn angenrheidiol ar unwaith; ac
- (c) bod hysbysiad ysgrifenedig yn cyfiawnhau cyflawni'r gwaith yn fanwl wedi'i roi i'r awdurdod cynllunio lleol cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.

Mae rhai adeiladau wedi'u heithrio o'r gofyniad i gael caniatâd adeilad rhestredig, yn enwedig adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio am y tro at ddibenion eglwysig (ond dylid nodi hefyd nad yw'r eithriad hwn yn gymwys i adeilad a ddefnyddir neu sydd ar gael i'w ddefnyddio fel preswylfa gan weinidog crefydd ac y gall yr eithriad gael ei gyfyngu neu ei hepgor gan orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 58AA Deddf 1971).

Er nad oes unrhyw hawl apelio statudol fel y cyfryw yn erbyn rhestru adeilad, ni'ch rhwystrir ar unrhyw amser rhag ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn honni y dylid peidio â rhestru'r adeilad, ar y sail nad yw mewn gwirionedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig; a chaiff unrhyw honiad o'r fath, gyda'r dystiolaeth yn ei hategu, ei ystyried yn ofalus gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn ymgynghoriad â'i gynghorwyr statudol. Mae nodyn cyfarwyddyd ar y dull gweithredu ar gael oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ogystal, lle gwrthodir caniatâd adeilad rhestredig gan awdurdod cynllunio lleol neu lle y'i caniateir yn ddarostyngedig i amodau, mae hawl apelio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru; ac un o seiliau apél o bosibl yw nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

Os ydych yn cynnig cymryd unrhyw gamau ar unrhyw adeg a allai effeithio ar gymeriad eich adeilad, byddai'n ddoeth i chi gyfeirio at ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, Rhan IV ac Atodiad 11, a'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1987 (O.S. 1987/349). Gellir cael manylion pellach oddi wrth eich awdurdod cynllunio lleol.

HYSBYSIAD BOD ADEILAD WEDI PEIDIO Â CHAEL EI RESTRU

PWYSIG-

MAE'R OHEBIAETH HON YN EFFEITHIO AR EICH EIDDO

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1971

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

At:

HYSBYSIR DRWY HYN fod yr adeilad a elwir a leolir yn wedi cael hepgor o'r rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a luniwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a hynny drwy ddiwygiad a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 54(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 ar 19 .

Dyddiad

19

[Clerc y Dref]

[Clerc y Cyngor]

[Prif Weithredwr]

NODYN

Mae'r adeilad y cyfeirir ato yn yr hysbysiad uchod wedi'i hepgor o'r rhestr oherwydd*

*Rhowch y rheswm dros hepgor.

23rd May 1990

David Hunt
Secretary of State for Wales

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations prescribe Welsh versions of—

- (a) forms of notification to be sent to the applicant in connection with an application for listed building consent, conservation area consent or for the variation or discharge of conditions subject to which listed building consent or conservation area consent has been granted (regulation 2 and Schedule 1); and
- (b) forms of certificate and notice to be used in connection with the applications described in paragraph (a) above and appeals to the Secretary of State pursuant to paragraph 8 or paragraph 9 of Schedule 11 to the Town and Country Planning Act 1971 (regulation 3 and Schedule 2); and
- (c) forms of notification to be used to inform an owner or occupier that a building has become listed or has ceased to be listed (regulation 4 and Schedule 3).

The Welsh versions prescribed by these Regulations may be used only in respect of listed buildings in Wales and buildings in conservation areas in Wales.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu fersiynau Cymraeg o—

- (a) ffurfiau hysbysiad a anfonir at y ceisydd mewn cysylltiad â chais am ganiatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth neu i amrywio neu ddileu amodau y rhoddwyd caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth yn ddarostynedig iddynt (rheoliad 2 ac Atodiad 1); a
- (b) ffurfiau tystysgrif a hysbysiad a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r ceisiadau a ddisgrifir ym mharagraff (a) uchod ac apeliadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 neu baragraff 9 o Atodiad 11 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 (rheoliad 3 ac Atodiad 2); ac
- (c) ffurfiau hysbysiad a ddefnyddir i roi gwybod i berchennog neu ddeiliad bod adeilad wedi'i restru neu wedi peidio â chael ei restru (rheoliad 4 ac Atodiad 3).

Ni ellir defnyddio'r fersiynau Cymraeg a bennir gan y Rheoliadau hyn ond mewn perthynas ag adeiladau rhestredig yng Nghymru ac adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth yng Nghymru.